# Adenoidectomi

# Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty

**Cyngor i gleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn Adenoidectomi**

**Gweithgareddau dydd i ddydd**

Ar ôl y llawdriniaeth, mae'n bwysig gorffwys ac osgoi unrhyw ymdrech neu godi pwysau trwm a allai arwain at waedu. Bydd angen i chi / eich plentyn gymryd 1 wythnos i ffwrdd o'r gwaith neu'r ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn mae'n bwysig cadw draw o leoedd gorlawn er mwyn ceisio sicrhau nad ydych yn dal haint gan bobl eraill cyn i'r trwyn wella. Mae hefyd yn bwysig osgoi amgylcheddau myglyd neu lychlyd ar ôl y lawdriniaeth er mwyn atal heintiau, a pheidio â chwythu'r trwyn gan y gall hyn arwain at waedu. Am y 2 wythnos gyntaf ar ôl y llawdriniaeth, argymhellir osgoi bwyd / diodydd poeth ac osgoi bath / cawod poeth iawn, oherwydd gallai'r gwres o'r stêm achosi i'r trwyn ddechrau gwaedu. Mae tymereddau oerach yn dderbyniol.

**Poen**

Mae'n normal cael rhywfaint o boen ac anghysur ar ôl y lawdriniaeth. Mae cyffuriau lladd poen syml fel paracetamol ac ibuprofen yn addas a bydd eich nyrs yn mynd drwy hyn gyda chi cyn eich rhyddhau. Ar ôl y lawdriniaeth, efallai y bydd y trwyn yn cael ei rwystro oherwydd chwyddo, ond dylai hyn setlo ymhen ychydig wythnosau. Gall hyn wneud i'ch llais swnio'n drwynol, nau gall hylifau ail godi yn y trwyn. Dylai hyn wella hefyd.

**Gwaedu**

Os ydych chi / eich plentyn yn dechrau gwaedu o'r trwyn neu i'r gwddf, rhai pethau syml y gellir eu gwneud yw sugno ar giwbiau iâ neu binsio blaen y trwyn. Fodd bynnag, os oes gwaed ffres parhaus yn ymddangos, fe'ch cynghorir i fynd yn syth i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Efallai y bydd angen aros yn yr ysbyty dros nos er mwyn i chi gael eich arsylwi, ac yn achlysurol iawn efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach er mwyn atal y gwaedu.

**Camau Dilynol:**

Bydd eich llawfeddyg yn rhoi gwybod i chi os oes angen apwyntiad dilynol arnoch.

**GWYBODAETH AR BETH I’W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI’U RHYDDHAU O’R YSBYTY**

Os bydd angen cyngor brys arnoch dylech gysylltu

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

**Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion)**: Ward C0 01633 493926 neu 01633 493922.

**Wedi 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 01633493609

**Mewn argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**